Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Dŷ Coryton

## Dyddiad yr arolygiad: Medi 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/11/2017**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Coryton yn darparu gwasanaeth dydd a phreswyl integredig arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng wyth ac un deg naw oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA).

Mae 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.  Mae gan bob disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu gynllun addysg, iechyd a gofal.  Mae bron pob un o'r disgyblion presennol wedi cael eu gosod gan awdurdodau yng Nghymru.

Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn plasty mawr ar gyrion Caerdydd.  Mae un deg tri disgybl yn byw yng nghartref plant Tŷ Coryton sydd â llety ar wahân ar y safle sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol.

Prynwyd yr ysgol yn ddiweddar gan gwmni ecwiti preifat sydd ag ysgolion a chartrefi plant ledled Cymru.  Mae tair ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae'r pennaeth addysg presennol wedi bod yn ei swydd er Medi 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

Mae'r cyfarwyddwr addysg a'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth gref iawn.

Mae'r pennaeth, sydd wedi bod yn ei swydd ers blwyddyn, yn meddu ar wybodaeth a phrofiad defnyddiol o'i rolau blaenorol mewn lleoliadau prif ffrwd.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw manwl i ddatblygiadau cenedlaethol, er enghraifft y cwricwlwm ar gyfer Cymru a'r fframwaith cymhwysedd digidol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol gydag amrywiaeth o ysgolion arbennig ac uned cyfeirio disgyblion.  Caiff y staff gyfleoedd rheolaidd i arsylwi a rhannu arfer dda.

Mae'r tair ysgol yn y sefydliad yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i ddysgu oddi wrth ei gilydd, a datblygu dulliau cyson.

Mae gan yr ysgol drefniadau hynod effeithiol i gefnogi lles disgyblion.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r ymweliad blaenorol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys ymweliadau rheolaidd oddi ar y safle. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid oes diben clir i'r gweithgareddau ystafell ddosbarth, ac nid ydynt yn ennyn diddordeb disgyblion yn ddigon da.

Mae'r ysgol yn datblygu cwricwlwm newydd yng nghyfnod allweddol 2 a 3, yn seiliedig ar ddull thematig. Megis dechrau cael ei ddatblygu y mae hwn.

Mae'r ysgol yn cynnal arsylwadau gwersi a theithiau dysgu rheolaidd. Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth reolaidd am yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau yn aml yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn arfarnu cryfderau a meysydd i'w datblygu yn ddigon da.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Wneud yn siŵr bod diben clir i bob un o'r gweithgareddau, a'u bod yn ennyn diddordeb pob disgybl

A2 Sicrhau bod gweithgareddau'n hyrwyddo annibyniaeth disgyblion yn unol â'u hanghenion a'u galluoedd

A3 Monitro'r cwricwlwm newydd wrth iddo ddatblygu a chynorthwyo staff i'w roi ar waith

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Gwella'r ffordd y caiff digwyddiadau eu monitro i gynnwys dadansoddiad o ymglymiad staff**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol wedi datblygu pecyn meddalwedd newydd ar gyfer cofnodi digwyddiadau. Mae hyn yn cofnodi gwybodaeth fanwl am y digwyddiad, gan gynnwys y math o ddigwyddiad, ble y digwyddodd, a'r disgyblion a'r staff a oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr am sbardunau neu arwyddion rhybudd, dwyster y digwyddiad, a pha mor hir y parodd, a'r strategaethau rheoli a ddefnyddiwyd.

Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i ddadansoddi digwyddiadau a rhoi strategaethau priodol ar waith. Pan gaiff patrwm penodol ei nodi, maent yn trafod hyn mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol ac yn gweithio gyda'r cynorthwyydd ymddygiad i ddatblygu strategaethau addas. Mae hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod pob un o'r staff yn dilyn strategaeth ymddygiad cadarnhaol disgybl yn ofalus.

Pan fydd y dadansoddiad o ddata yn dangos bod angen hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff, trefnir hyn. Mewn rhai achosion, pan na fydd disgyblion yn ymateb yn dda i aelod penodol o staff, mae rheolwyr yn adolygu'r ffordd y caiff staff a disgyblion eu grwpio. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ymddygiad y disgyblion.

**Argymhelliad 2: Gwneud yn siŵr bod pob un o'r staff yn annog disgyblion i weithio'n annibynnol, pan fo'n briodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi cyflwyno ystod o strategaethau defnyddiol i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio amserlen weledol, cardiau tasgau gyda chyfarwyddiadau cam wrth gam a symbyliadau gweledol, a system ar gyfer cael gwaith a'i roi o'r neilltu. Mae gan bob disgybl system gyfathrebu addas sy'n eu galluogi i sicrhau bod pobl yn eu deall.

Mae rheolwyr yn monitro'r defnydd o gymorth 1:1 trwy arsylwadau gwersi a theithiau dysgu. Mae staff yn gwbl ymwybodol o'r angen i hyrwyddo annibyniaeth disgyblion, ac maent yn rhoi canmoliaeth yn rheolaidd pan fyddant yn cwblhau gwaith yn annibynnol. Mae adborth ysgrifenedig yng ngwaith disgyblion yn nodi'n glir p'un a ydynt wedi cwblhau'r tasgau yn annibynnol ai peidio.

Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, nid yw'r gweithgareddau dysgu a baratoir yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth.

**Argymhelliad 3: Adolygu'r broses asesu cyfoedion i'w gwneud yn fwy ystyrlon i bob disgybl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae rheolwyr ac athrawon wedi adolygu'r defnydd o asesu cyfoedion mewn gwersi i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n berthnasol i anghenion a galluoedd disgyblion. Mae athrawon wedi datblygu strategaethau addas i gynnwys disgyblion mewn asesu gwaith ei gilydd mewn ffyrdd sy'n ystyrlon a buddiol iddynt. Mae effaith y strategaethau hyn yn ffocws mewn arsylwadau gwersi rheolaidd.

**Argymhelliad 4: Gwneud yn siŵr bod gan staff ddull cyson o ddatblygu ysgrifennu disgyblion**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r polisi llawysgrifen yn amlinellu fframwaith clir, sy'n helpu i hyrwyddo dull cyson tuag at ddatblygu llawysgrifen disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu canllawiau defnyddiol i gynorthwyo athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu mewn agweddau ar arfer ystafell ddosbarth, er enghraifft wrth gynorthwyo disgyblion â throsysgrifo neu gyda chyflwyno gwaith disgyblion. Mae cyfarfodydd yn darparu cyfleoedd rheolaidd i staff drafod ac adolygu'r arfer hon.

Mae arsylwadau gwersi a chraffu ar waith yn canolbwyntio'n briodol ar ddatblygu ysgrifennu disgyblion. Mae rheolwyr yn darparu adborth ac arweiniad defnyddiol ar gyfer staff i helpu i ddatblygu dull cyson. Fodd bynnag, mae rhai sylwadau'n rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn darparu arweiniad digon clir ar gyfer staff ar sut i wella eu harfer.

Mae'r ysgol yn datblygu ei darpariaeth i wella medrau darllen disgyblion, er mwyn ymestyn ystod y mynegiant yn ysgrifennu'r disgyblion. Fodd bynnag, megis dechrau cael eu datblygu y mae'r mentrau hyn, ac mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

### Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth i ddangos nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Coryton |
| **Rhif yr ysgol** | 6816094 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 13/09/2017 |
| **Perchennog** | August Equity |
| **Staff** | 1 cyfarwyddwr addysg, 1 pennaeth, 1 dirprwy bennaeth, 5 o athrawon, 6 o uwch gynorthwywyr cymorth dysgu (CCD), 6 CCD, 1 CCD rhan-amser |
| **Nifer y disgyblion** | 24 |
| **Darpariaeth** | Dydd a phreswyl |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylder y Sbectrwm Awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 04/02/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 04/01/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 06/06/2016 |